

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Chwefror 2022.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Richard Parry Edward Evans - Bryncir, John Jones Clifford Williams Michael Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen - Golan, Huw Pritchard Delyth Evans Manon Jones Evans - Pentrefelin, Dafydd Thomas Iddon Edwards - Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwenno Emlyn Huws.

Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Huw Pritchard ar farwolaeth ei frawd a'r Cynghorydd Amanda N Owen ar farwolaeth ei thad.

- 3 **Ddim yn bresennol** - dim.
- 4 **Datgan buddiant** - Eitem 11 - Iddon Edwards. Eitem 12 - Megan Lloyd Williams, Amanda N Owen, Gwilym Evans, Huw Pritchard, Delyth Evans.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 6/1/22 Richard Parry yn cynnig ei bod yn gywir a Huw Pritchard yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Prenteg

Modurdy - heb dderbyn diweddariad.

Modur wedi ei symud o'r Maes Parcio ac wedi ei barcio o flaen y tai cyngor - heb dderbyn diweddariad.

Gwter wrth Aberdeunant - mae'r Archwiliwr Priffyrdd wedi bod ar y safle. Bydd angen gwneud mwy o waith ymchwil ac yna bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mynwent Prenteg - adroddodd y Clerc ei bod wedi atgoffa'r ymgymerydd fod angen symud pridd.

## Garndolbenmaen

Modur yn parcio ar y Green - mae perchennog y modur wedi derbyn rhybudd i'w symud. Mi fydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fonitro ac yn cymryd camau pellach os yw'r broblem yn dychwelyd.

Hwb Eifionydd - derbyniwyd ateb i'r ohebiaeth ddiweddaraf lle codwyd y drafferth cysylltu ar y ffôn a holi oedd meddygon yn gweld cleifion wyneb yn wyneb.

Derbyniwyd ateb yn egluro bod angen 4 aelod o staff i gynnig gwasanaeth effeithlon. Ar hyn o bryd mae 3 aelod o staff yn ateb galwadau ffôn, ond disgwylir penodi aelod arall yn fuan.

Eglurwyd fod gan y Feddygfa dim o glinigwyr ac nid yw'n angenrheidiol i'r meddyg weld pob claf. Y clinigwyr fydd yn penderfynu os oes angen gweld claf wyneb yn wyneb.

Penderfynwyd cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor AS.

Clerc i gysylltu gyda Hwb Eifionydd i gael gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o oriau a dreuliodd y meddygon yn y meddygfeydd yn ystod mis Ionawr.

## Golan

Mynwent Bethel - gwaith ar y caead twll archwilio wedi ei gwblhau.

## Pentrefelin

Newid cyfyngiad cyflymder Fferm Plymouth at y Ganolfan. Mae Gwasanaeth Traffig, Cyngor Gwynedd am asesu'r cyfyngiadau ac yn gobeithio rhannu'r canlyniad cyn diwedd mis Mawrth.

Llwybr Cyhoeddus Cefn Meusydd i Hendregadredd - derbyniwyd ateb gan Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn nodi ei bod wedi bod yn ystyried sut i ddatrys y broblem hefo'r slabiau. Hefyd, derbyniwyd llythyr gan berchennog tir cyfagos i'r llwybr yn cynnig ail-gyfeirio'r llwybr i'w thir.

Penderfynwyd gofyn i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy am gyfarfod ar safle'r llwybr i drafod yr opsiynau. Hefyd gwahodd perchennog y tir i'r cyfarfod.

## 7 **Mynwentydd**

### Mynwent Ynyscynhaearn

Trafodwyd yr angen i wneud gwelliannau i'r Fynwent - gwella'r tir, darparu mwy o le parcio. Penderfynwyd ystyried clustnodi arian ar gyfer hyn yng nghyllideb 2023 -24.

## 8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Bryn Melyn - Pentrefelin - coed wedi disgyn ar y llwybr. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

## 9 **Adroddiad Pentrefi**

### Datblygiad Tai Fforddiadwy

Mae Adra wedi cael caniatâd cynllunio i adeiladu 2 gartref rhent cymdeithasol ar dir ger Bro Pedr Fardd, Garndolbenmaen.

Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned gynnig enw i'r tai. Cafwyd cynnig hefyd i drafod hyn gyda'r ysgol leol. Penderfynwyd gofyn i'r ysgol leol feddwl am enw addas.

### Datblygiadau Gyfyng, Cwm Pennant

Derbyniwyd gwybodaeth gan berchennog Gyfyng ynglŷn â'r datblygiadau i'r adeiladau o dan ganiatâd cynllunio a'r maes gwersylla sy'n cael ei ddatblygu o dan ganllawiau'r Clwb Gwersylla Gwyrddach.

### Traffig Pentrefelin

Derbyniwyd e-bost gan un o'r trigolion lleol yn tynnu sylw'r Cyngor Cymuned at y goryrru sy'n digwydd drwy'r pentref. Penderfynwyd gofyn i Arrive Alive ddod i'r pentref i fesur cyflymder y traffig.

## Parcio Ger y Llwyn, Pentrefelin

Bydd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Stephen Churchman yn cyfarfod perchennog Ger-y-Llwyn i drafod y problemau parcio.

## Llwyn Mafon - Asesiad, Cerdded, Beicio a Marchogaeth

Mae Ymgynghoriad Gwynedd yn gwneud asesiad ar yr uchod. Gofynnwyd am sylwadau ar unrhyw faterion diogelwch sydd wedi cael eu hadnabod. Penderfynwyd hysbysu'r adran fod llwybr beicio yn bodoli yn barod trwy Golan, bod hi'n anodd tynnu allan o Garnedd Hir a Lôn Tabor. Mynegwyd anfodlonrwydd fod yr e-bost a dderbyniwyd yn uniaith Saesneg a phenderfynwyd ysgrifennu at Bennaeth Ymgynghoriad Gwynedd.

### **10 Ymgynghoriad Cyhoeddus - Canllaw Cynllunio Atodol Polisi Cynllunio a Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Gogledd Cymru**

Penderfynwyd peidio gwneud sylwadau.

### **11 Cyngor Tref Nefyn - Ymgynghoriadau ar ail dai a chymunedau**

Penderfynwyd trefnu cyfarfod ar yr 17eg o Chwefror i drafod yr ymgynghoriadau.

### **12 Rhoddion Ariannol**

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol -

£1000 - Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd;  
£ 300 - yr un i Neuaddau Garndolbenmaen, Pentrefelin, Golan, Penmorfa, Prenteg, Elusen Ambiwylans Cymru, Tŷ Gobaith.

£ 200 - Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Cylch Meithrin y Gorlan Fach, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog.

### **13 Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - rhybudd cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â Thafarn Faig, Pant Glas, Garndolbenmaen o 28/2/2022.

Twristiaeth Gynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri Gweithdai Zoom 27/1/22, 7/2/22. Rhannwyd 11/1/22.

Cronfa Cymunedol Mentrus - Rhannwyd 1/2/22.

### **Gohebiaeth ychwanegol**

- a Unllais Cymru - Bwletin Newyddion.
- b Unllais Cymru - Gwahoddiad i gyfres o ddiwyddiadau rhannu dysg a gynhelir gan y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar 24 - 31/12/22. Rhannwyd 19/1/22.
- c Llywodraeth Cymru - Strategaeth genedlaethol trais yn erbyn menywod cam-drin domestig traws rhywiol.

### **14 Cynllunio**

Rhestrau - 31/12/21, 7/1, 14/1, 20/1/22.

#### Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/LB194E NP2/16/LB194D Caniatâd adeilad rhestredig am newidiadau ac estyniad i'r ffermdy, trosi adeiladau allanol yn anecs, storfa a llety gwyliau tymor byr. Erw Suran, Cwmystradllyn. Gwrthwynebu ar sail gôr ddatblygiad. Yn gefnogol i'r hen ffermdy gael ei atgyweirio ac datblygu un adeilad yn uned gwyliau. Nid yw'r isadeiledd yn addas ar gyfer yr holl ddatblygiad.

NP2/16/108J Codi lloches cae tri bae i geffylau. Plas y Pennant, Cwm Pennant. Dim gwrthwynebiad.

### **15 Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: -

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

#### Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Idris Jones	=	£ 3240.00
Costau Clerc	=	£ 179.80
<u>Ychwanegu</u>		
Yr Wylan	=	£ 16.00
HSBC Costau 6/11/21 - 5/12/21	=	£ 13.00
Eifion Owen	=	£ 200.00

Derbyniadau - dim.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.57 Cyfredol £12,206.58

**16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Rhoddion Ariannol
- Hwb Eifionydd
- Llythyr uniaith Saesneg Cyngor Gwynedd
- Ceisiadau Cynllunio
- Mynwent Ynyscynhaearn
- Ymgynghoriadau ar ail dai a chymunedau

Gwefan: Cofnodion mis Ionawr.